



Canllaw i ddeall y Broses Diogelu Oedolion



**Gwybodaeth am ymholiadau ac
ymchwiliadau Diogelu, rôl yr Heddlu a'r
Crwner, Arolygiaeth Gofal Cymru, yr
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.**

www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

Beth yw Diogelu Oedolion?

Cam-drin yw unrhyw weithred sy'n niweidio rhywun arall, a gall fod ar sawl ffurf.

Cam-drin corfforol (e.e. taro, slapio, gwthio, rhwystro rhywun yn gorfforol)

Cam-drin emosiynol (e.e. bwlio, gwawdio, bygwth neu fychanu rhywun)

Cam-drin geiriol (e.e. gweiddi neu regi)

Cam-drin ariannol (e.e. arian neu eiddo yn cael eu cymryd o dan bwysau neu heb ganiatâd)

Cam-drin rhywiol (e.e. cyffwrdd, cusanu neu gyfathrach rywiol dieisiau)

Esgeulustod (e.e. ddim yn cael y gofal priodol, camreoli meddyginiaeth, gwrthod preifatrwydd, dewis neu gyswllt cymdeithasol)

Gwahaniaethu (e.e. dioddef camdriniaeth neu esgeulustod ar sail crefydd, diwylliant, rhyw, rhywioldeb neu anabledd)

Gall camdriniaeth fod yng nghartref unigolyn, mewn cartref preswyl neu nyrsio neu ganolfan ddydd neu ysbyty.

Beth sy'n digwydd pan mae camdriniaeth yn cael ei hadrodd'?

Pan mae unigolyn sy'n cael eu cam-drin, neu rywun sy'n pryderu ynghylch lles unigolyn arall, yn cysylltu ag adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu pan fo adran felly'n derbyn Adroddiad Diogelu gan asiantaeth arall, byddant yn **sicrhau bod yr unigolyn yn ddiogel**, byddant yn gwrando ac yn ystyried y sefyllfa ac yna'n penderfynu ar yr ymateb priodol.

Yn gyffredinol, mae'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn dilyn proses tri cham:

1. **Sgrinio** – gwirio cywirdeb ffeithiol cyffredinol unrhyw adroddiad.
2. **Ymholiadau cychwynnol** – casglu, adolygu a choladu gwybodaeth.
3. **Penderfynu pa gamau i'w gweithredu.**

Eiriolaeth: Mae canllaw diogelu Llywodraeth Cymru'n cynghori awdurdodau lleol ei bod yn rhaid iddynt ystyried "a oes angen cynnwys eiriolwr dan

unrhyw gynllun eiriolaeth statudol neu wirfoddol", er mwyn cefnogi'r unigolyn trwy rai camau neu bob cam mewn ymholiad neu ymchwiliad.

P'un a oes angen cymorth eiriolwr ai peidio, mae'n rhaid ystyried "dymuniadau a theimladau'r oedolyn mewn perygl" yn ystod ymholiad/ymchwiliad i gam-drin.

Ymholiadau: Mae'n rhaid i awdurdod lleol "wneud neu beri i ymholiadau gael eu gwneud fel y mae'n pennu bod eu hangen i benderfynu pa gamau y dylid eu cymryd, os dylid o gwbl. Gall yr awdurdod "wneud yr ymholiadau ei hun, neu beri iddynt gael eu gwneud gan gorff arall". Fodd bynnag, "mae'r ddyletswydd i bennu natur yr ymholiadau sydd eu hangen yn parhau'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol, hyd yn oed pan mae corff arall yn gwneud yr ymholiadau".

Bydd canlyniad y sgrinio neu'r ymholiadau'n pennu beth ddylid ei wneud, os oes angen gwneud unrhyw beth. Gall hyn gynnwys cychwyn ymchwiliad gan un asiantaeth neu ymchwiliad amlasiantaeth (yn dibynnu ar fanylion penodol yr achos).

Os yw ymholiadau cychwynnol yn arwain yr adran gwasanaethau cymdeithasol i gasglu nad yw'r mater yn bryder o ran diogelu, mae'n rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ystyried wedyn a yw'r unigolyn angen gwasanaethau eraill ganddynt.

Ymchwiliadau:

Os oes angen ymchwiliad, gall hwn gael ei gynnal gan yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd neu gall fod yn ymchwiliad ar y cyd gan ddibynnu ar y pryderon diogelu a fynegwyd. Ar ôl iddynt ymchwilio, byddant yn dod i gasgliad ac yn penderfynu a yw'r gamdriniaeth/niwed yn digwydd ai peidio ac yn trafod beth ddylai ddiwydd nesaf.

Byddant hefyd yn sicrhau bod yr unigolyn yn cael eu cefnogi a'u bod yn ddiogel.

Mae gwahanol fathau o ymchwiliadau y gellid eu cynnal yn ystod y broses ddiogelu.

Ymchwiliadau Troseddol: Mae'r heddlu'n bartner diogelu allweddol ac efallai y bydd angen eu cynnwys mewn sefyllfa argyfwng os oes pryderon bod oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed difrifol.

Mae gan yr heddlu bwerau i ymyrryd os bydd unigolyn angen cymorth oherwydd cyflwr iechyd, anaf neu sefyllfa arall sy'n fygythiad i fywyd.

Bydd yr heddlu'n ceisio pennu:

- barn a dymuniadau'r oedolyn mewn perygl
- a oes trosedd wedi'i datgelu, fel mae'r gyfraith yn ei ddiffinio.

Mae'n rhaid i'r dystiolaeth maen nhw'n ei chasglu am honiad ac am weithredoedd y sawl yr honnir eu bod wedi cyflawni'r drosedd felly fod yn ddigon cadarn i ddarparu tystiolaeth o'r fath yn y llys..

Y Crwner: Mae crwneriaid yn swyddogion barnwrol annibynnol sy'n gyfrifol am ymchwilio i farwolaethau treisgar neu annaturiol neu sydyn lle mae'r achos yn anhysbys a marwolaethau carcharorion y mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt amdanynt. Gall y Crwner fod â chwestiynau penodol. Mae'r rhain yn debygol o fod yn un o'r categorïau canlynol:

- Pan mae methiant amlwg a difrifol gan un sefydliad neu fwy
- Pan nad oes unrhyw fethiant amlwg, ond mae angen ystyriaeth ac eglurhad pellach i'r camau mae'r sefydliadau wedi'u cymryd.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC): AGC yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am ymchwilio i, rheoleiddio a chynnal safonau gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae ganddynt ystod o bwerau i ymchwilio a gorfodi newidiadau ar ddarparwr gwasanaeth ac yna i

canfod, sydd wedi arwain neu a allai arwain at esgeulustod neu gamdriniaeth.

Mae dyletswydd arnynt i weithredu heb oedi mewn achosion o argyfwng, a allai gynnwys trafod gyda'r awdurdod lleol fel yr arweinydd ar gyfer dyletswyddau diogelu lleol, neu gyda'r heddlu pan mae trosedd wedi'i gyflawni gynnal adolygiadau dilynol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, pan mae gwasanaethau gwael wedi'u

Os ydych chi wedi rhoi gwybod am bryder ynghylch camdriniaeth, ond nad ydych yn fodlon â'r ymateb:

(Pryderon wedi'u mynegi wrth y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r gwasanaeth iechyd (GIG)).

Defnyddio gweithdrefn gwyno'r **awdurdod lleol** – os nad ydych chi'n fodlon â'r modd y mae adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol wedi ymateb i'r pryder diogelu, gallwch ddefnyddio eu gweithdrefn gwyno.

Mae dau gam i'r weithdrefn gwyno:

Cam un - byddai'n cynnwys ceisio 'datrysiaid lleol' gyda'r un awdurdod lleol â wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.

Cam dau - byddai'n 'ymchwiliad ffurfiol'. Ar gam ffurfiol y broses gwyno, mae'n rhaid penodi 'ymchwilydd annibynnol'.

GIG/Iechyd - Os nad ydych chi'n fodlon â'r ffordd mae sefydliad GIG wedi ymdrin â'ch pryder diogelu, gallwch ddefnyddio gweithdrefn gwyno GIG Cymru.

Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Os ydych wedi defnyddio gweithdrefnau cwyno'r awdurdod lleol neu'r GIG, ond eich bod yn dal yn anfodlon â chanlyniad eich cwyn neu'r modd y cafodd ei thrin, gallwch atgyfeirio'ch achos at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Ombwdsmon yn ddiuedd ac yn annibynnol ar awdurdodau lleol, y GIG a chyrrff llywodraethol eraill.

Byddant fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi mynd drwy'r weithdrefn gwyno'n llawn gyda'r sefydliad dan sylw, cyn cysylltu â nhw, ond nid yw hyn o reidrwydd yn wir.

Cyswllt: Ffôn: 0300 790 0203

Gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus:

Sefydlwyd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol i gefnogi'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ac amddiffyn pobl sydd heb alluedd meddyliol trwy lunio a rheoli cofrestrri ar wahân o bwerau atwrnai arhosol, pwerau atwrnai parhaus a dirprwyon wedi'u penodi gan y llys a dirprwyon goruchwyliol.

Mae rhan o'u dyletswyddau'n cynnwys ymdrin â chwynion ynghylch y ffordd mae atwrneiod neu ddirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau.

Pan fo marwolaeth a bod pryderon am eraill yn yr un lleoliad (fel cartref gofal) neu farwolaethau nad yw'n ofynnol cynnal cwest arnynt, mae ymholiadau/camau gweithredu dilynol yn cael eu nodi gan y Crwner neu ei swyddogion.

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfrifol am roi gwybod i awdurdodau lleol, yr heddlu ac asiantaethau priodol eraill pan ddeuir o hyd i gamdriniaeth.

Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol os oes gennych bryderon ynghylch oedolyn:

Cyswllt:	Oriau swyddfa	Y tu hwnt i oriau swy
Ynys Môn	01248 752 752	01248 353 551
Conwy	0300 456 1111	0300 123 3079
Sir Ddinbych	0300 4561 000	0345 053 3116
Sir y Fflint	01352 803 444	0345 053 3116
Gwynedd	01766 772 577	01248 353 551
Wrecsam	01978 292 066	0345 053 3116